



Mesur Teithio gan Ddysgwyr (Cymru) 2008

2008 mccc 2

Nodiadau Esboniadol

Learner Travel (Wales) Measure 2008

2008 nawm 2

Explanatory Notes

£5.75

MESUR TEITHIO GAN DDYSGWYR (CYMRU) 2008

NODIADAU ESBONIADOL

1. Nodiadau Esboniadol i'r Mesur Teithio gan Ddysgwyr (Cymru) 2008 a basiwyd gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru ar 30 Medi 2008 ac a gymeradwywyd gan Ei Mawrhydi yn y Cyngor ar 10 Rhagfyr 2008 yw'r rhain. Fe'u paratowyd ar y cyd gan Adran yr Economi a Thrafnidiaeth ac Adran Plant, Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau Llywodraeth Cynulliad Cymru i helpu'r sawl sy'n darllen y Mesur arfaethedig. Dylid darllen y Nodiadau Esboniadol ar y cyd â'r Mesur ond nid ydynt yn rhan ohono.
2. Mae'r Mesur yn disodli darpariaethau sy'n gymwys i Gymru yn adrannau 509, 509AA, 509AB, 509AC and 509A o Ddeddf Addysg 1996 mewn perthynas â darparu cludiant ar gyfer plant ac eraill sy'n cael addysg a hyfforddiant mewn ysgolion a sefydliadau eraill.

SYLWEBAETH AR ADRANNAU

Adran 1 – Y prif dermau a ddefnyddir yn y Mesur hwn

3. Mae adran 1 yn diffinio'r prif dermau a ddefnyddir yn y Mesur.
4. Gall 'trefniadau teithio' gynnwys darparu cludiant, darparu hebryngwyr i hebrwng plant, talu'r cyfan neu ran o dreuliau teithio, a thalu lwfansau.
5. Personau sy'n cael addysg neu hyfforddiant yw 'dysgwyr' o fewn cwmpas y Mesur.
6. Diffinnir 'mannau perthnasol' fel ysgolion a gynhelir, sefydliadau addysg bellach, ysgolion annibynnol a enwir mewn datganiadau o anghenion addysgol arbennig, ysgolion arbennig nas cynhelir, unedau cyfeirio disgyblion, manau lle y darperir addysg feithrin gan awdurdod lleol neu lle y'i cyllidir gan yr awdurdod, unrhyw fan a gyllidir gan Weinidogion Cymru i ddarparu addysg neu hyfforddiant i ddysgwyr ôl-16 (megis addysg bellach mewn sefydliad addysg uwch neu ddysgu seiliedig ar waith) ac unrhyw fan lle y mae dysgwyr yn ymgymryd â phrofiad gwaith. Mae'r diffiniad hefyd yn cwmpasu trefniadau a wneir ar gyfer disgyblion ag anghenion eithriadol y mae eu haddysg wedi ei threfnu gan awdurdod lleol mewn man ac eithrio ysgol a sefydliadau lle y mae Gweinidogion Cymru wedi sicrhau addysg a hyfforddiant a llety byrddio ar gyfer dysgwyr ôl-16 ag anawsterau dysgu.

Adran 2 – Dyletswydd i asesu anghenion teithio dysgwyr

7. Mae adran 2 yn rhoi dyletswydd ar awdurdod lleol i asesu anghenion teithio dysgwyr sy'n bersonau o dan 19 oed sy'n cael addysg neu hyfforddiant, neu sy'n bersonau sydd wedi cyrraedd 19 oed, sydd wedi cychwyn ar gwrs addysg a hyfforddiant pan oeddent o dan 19 oed ac sy'n parhau i fynychu'r cwrs hwnnw, ac sy'n preswyllo fel arfer yn ardal yr awdurdod. Anghenion dysgwyr am drefniadau teithio addas bob dydd rhwng y

LEARNER TRAVEL (WALES) MEASURE 2008

EXPLANATORY NOTES

INTRODUCTION

1. These Explanatory Notes are for the Learner Travel (Wales) Measure 2008 which was passed by the National Assembly for Wales on 30 September 2008 and approved by Her Majesty in Council on 10 December 2008. They have been prepared by the Department for the Economy and Transport in conjunction with the Department for Children, Education, Life-Long Learning and Skills of the Welsh Assembly Government to assist the reader of the proposed Measure. The Explanatory Notes should be read in conjunction with the Measure but are not part of it.
2. The Measure replaces provisions applying to Wales in sections 509, 509AA, 509AB, 509AC and 509A of the Education Act 1996 in relation to the provision of transport for children and others receiving education and training at schools and other institutions.

COMMENTARY ON SECTIONS

Section 1 – main terms used in this measure

3. Section 1 defines the main terms used in the Measure.
4. ‘Travel arrangements’ may include providing transport, providing escorts to accompany children, the payment of all or part of travel expenses, and the payment of allowances.
5. ‘Learners’ within the scope of the Measure are persons who receive education or training.
6. ‘Relevant places’ are defined as maintained schools, further education institutions, independent schools named in statements of special educational needs, non-maintained special schools, pupil referral units, places where nursery education is provided by a local authority or funded by the authority, any place funded by Welsh Ministers to provide education or training to post-16 learners (such as further education in a higher education institution or work based learning) and any place where learners undertake work experience. The definition also covers arrangements made for pupils with exceptional needs whose education has been arranged by a local authority at a place other than a school and institutions where Welsh Ministers have secured education and training and boarding accommodation for post-16 learners with learning difficulties.

cartref ac ysgolion neu fannau eraill lle y maent yn cael addysg a hyfforddiant (ac a elwir yn 'fannau perthnasol') yw 'anghenion teithio dysgwyr'. Yn ymarferol, golyga hyn fod disgyblion o oedran ysgol gorfodol, disgyblion o oedran chweched dosbarth, a phlant o oedran cael addysg feithrin a gyllidir gan yr awdurdod, yn dod o fewn cwmpas yr asesiad y mae adran 2 yn ei wneud yn ofynnol. O dan is-adran (1)(c) gall Gweinidogion Cymru wneud rheoliadau'n pennu dysgwyr eraill os dyna'u dymuniad; felly gallai cwmpas yr asesiad gael ei newid. Bydd yr asesiad yn cynnwys dysgwyr sy'n teithio i fannau perthnasol yn ardaloedd awdurdodau eraill. Rhaid i awdurdod wneud yr asesiad hwn ym mhob blwyddyn academaidd er mwyn paratoi ar gyfer y flwyddyn academaidd ganlynol. Bydd yr asesiad yn rhoi i awdurdod lleol drosolwg o anghenion teithio dysgwyr a bydd yr wybodaeth honno'n helpu'r awdurdod i wneud trefniadau teithio ar gyfer dysgwyr mewn modd effeithlon ac effeithiol.

8. Mae'r ddyletswydd yn rhoi effaith i'r mathau o weithgareddau y byddai awdurdod lleol wedi ymgymryd â hwy i gyflawni'n effeithiol ei ddyletswyddau o dan Ddeddf Addysg 1996 (fel y'i diwygiwyd). Er na wnaeth y Ddeddf honno roi dyletswydd benodol ar awdurdod lleol i asesu anghenion teithio plant mewn addysg oedran statudol, byddai awdurdod effeithiol wedi ystyried anghenion teithio dysgwyr er mwyn gwneud trefniadau o dan adran 509(1) o Ddeddf Addysg 1996 ar gyfer cludo plant o oedran ysgol gorfodol. Ar gyfer dysgwyr o oedran chweched dosbarth, byddai awdurdod wedi casglu ac asesu gwybodaeth er mwyn paratoi datganiad polisi cludiant o dan adran 509AA.
9. Mae'r asesiad i gwmpasu anghenion teithio dysgwyr sy'n mynychu 'mannau perthnasol' gwahanol ar ddyddiau gwahanol. Pwrpas hyn yw cymryd i ystyriaeth y ffaith bod rhai dysgwyr yn mynychu ysgol wahanol neu sefydliad addysg bellach gwahanol am ran o'u haddysg neu o'u hyfforddiant, neu'n ymgymryd â phrofiad gwaith yn rhywle arall, neu wedi ymrestru ar gwrs dysgu seiliedig ar waith. Fodd bynnag, fel y mae adran 5 yn egluro, o ran manau o'r fath, nid yw'r asesiad i ymwneud ond â theithio i'r cartref ac o'r cartref ac nid yw'n ymwneud â theithio rhwng manau yn ystod y dydd. Nid yw'r asesiad i ymwneud ag anghenion teithio ar gyfer ymweliadau preswyl neu dripiâu diwrnod a drefnir gan ysgolion neu sefydliadau addysg bellach, ac nid yw ychwaith yn ofynnol i awdurdodau ystyried gweithgareddau allgyrsiol, clybiau brecwast neu glybiau ar ôl ysgol (ond cânt ddewis gwneud hynny os dyna'u dymuniad).
10. Wrth wneud asesiad, mae'n ofynnol i awdurdod lleol roi sylw i faterion a restrir yn is-adran (4)(a) i (e). Anghenion dysgwyr anabl neu ddysgwyr ag anawsterau dysgu, unrhyw anghenion penodol sydd gan ddysgwyr sy'n blant ac sy'n 'derbyn gofal' neu a fu'n derbyn gofal gynt gan awdurdod lleol, oed y dysgwr a natur y ffordd y disgwylir iddo ei dilyn rhwng y cartref a'r manau lle y mae'n cael addysg neu hyfforddiant yw'r materion hyn.

Adran 3 – Dyletswydd awdurdod lleol i wneud trefniadau cludo

11. Mae adran 3 yn rhoi dyletswydd ar awdurdod lleol i wneud trefniadau cludo ar gyfer plant o oedran ysgol gorfodol mewn amgylchiadau penodedig ac yn ddarostyngedig i amodau penodedig. Nodir yr amgylchiadau a'r amodau yn y tabl ar ôl is-adran (2). Mae'r adran yn darparu system o hawl i gludiant am ddim yn dibynnu p'un ai addysg gynradd ai addysg uwchradd y mae plant yn ei chael ac a ydynt yn byw y pellteroedd penodedig neu'n bellach o'r manau lle y maent yn cael addysg neu hyfforddiant.

Section 2 - duty to assess learner travel needs

7. Section 2 places a duty on a local authority to assess the travel needs of learners who are persons under the age of 19 who receive education or training, or persons who have attained the age of 19 who started a course of education or training when under 19 and continue to attend that course, and who are ordinarily resident in the authority's area. 'Learner travel needs' are the needs of learners for suitable travel arrangements each day between home and schools or other places where they receive education and training (known as 'relevant places'). In practice, this means that pupils of compulsory school age, of sixth form age, and children of nursery education age in provision funded by the authority, are in the scope of the assessment required by section 2. The Welsh Ministers can, under subsection (1)(c), make regulations specifying other learners if they wish so that the scope of the assessment could be changed. The assessment will include learners who travel to relevant places in other authority areas. An authority must make this assessment every academic year in preparation for the following academic year. The assessment will give a local authority an overview of the travel needs of learners and that information will help them make travel arrangements for learners in an efficient and effective manner.
8. The duty puts into effect the sorts of activities that a local authority would have undertaken to discharge effectively its duties under the Education Act 1996 (as amended). Although that Act did not place a specific duty on a local authority to assess the travel needs of children in statutory age education, an effective authority would have considered the travel needs of learners in order to make arrangements under section 509(1) of the Education Act 1996 for the transport of children of compulsory school age. For learners of sixth form age, an authority would have gathered and assessed information in order to prepare a transport policy statement under section 509AA.
9. The assessment is to cover the travel needs of a learner who attends different 'relevant places' on different days. This is to take account of the fact that some learners attend a different school or a further education institution for part of their education or training or they undertake work experience elsewhere, or are enrolled on work based learning. However, as section 5 makes clear, the assessment is only to be concerned with travel to and from the home to such places and is not concerned about travel within the day between places. The assessment is not to be concerned with travel needs for residential trips or day trips organised by schools or further education institutions, nor are authorities required (but they may choose to if they wish) to take account of extra-curricular activities, breakfast or after-school clubs.
10. When making an assessment, a local authority is required to have regard to matters listed in subsection (4)(a) to (e). These are the needs of disabled learners or learners with learning difficulties; any particular needs of learners who are children 'looked after' or formerly looked after by a local authority; the age of a learner; and the nature of the route that s/he is expected to take between home and the places where s/he receives education or training.

Mae'r dull hwn o benderfynu hawl yn debyg i'r system a luniwyd wrth roi ar waith gyda'i gilydd adrannau 444 a 509 o Ddeddf Addysg 1996.

12. Mae is-adran (1) yn darparu bod yr adran yn gymwys i blant o oedran ysgol gorfodol sy'n preswyllo fel arfer yn ardal awdurdod lleol os yw'r amgylchiadau a nodir yng ngholofn 1 y tabl yn gymwys i'r plentyn ac os bodlonir yr amodau a geir yng ngholofn 2.
13. Mae is-adran (2) yn nodi'r brif ddyletswydd sydd ar yr awdurdod lleol i wneud trefniadau cludo addas i hwyluso'r ffordd i blentyn y mae'r adran yn gymwys iddo fynychu bob dydd y manau perthnasol lle y mae'r plentyn yn cael addysg neu hyfforddiant. Hwylusir y ffordd i'r plentyn fynychu'r manau hynny os gwneir trefniadau i'r plentyn deithio o'i gartref i'r man lle y mae'n cael addysg neu hyfforddiant ac yn ôl adref.
14. Mae'r tabl ar ôl is-adran (2) yn nodi'r amgylchiadau a'r amodau sy'n arwain at hawl i gael trefniadau cludo am ddim.
15. Bydd gan blant sy'n cael addysg gynradd yr hawl i gludiant am ddim os ydynt yn byw ddwy filltir neu fwy o'r ysgol a gynhelir, o'r uned cyfeirio disgyblion, neu o'r ysgol arbennig nas cynhelir lle y maent yn ddisgyblion, onid yw'r awdurdod wedi trefnu i'r plentyn ddod yn ddisgybl cofrestredig mewn sefydliad addas yn nes at gartref y plentyn neu wedi trefnu i'r plentyn fyrddio yn yr ysgol neu'n agos ati. Pan fo gan blentyn ddatganiad o anghenion addysgol arbennig sy'n enwi ysgol annibynnol, os bydd yr ysgol honno ddwy filltir neu fwy o gartref y plentyn, bydd yn rhaid i awdurdod lleol ddarparu cludiant am ddim onid yw wedi trefnu i'r plentyn ddod yn ddisgybl cofrestredig mewn sefydliad addas yn nes at ei gartref, neu wedi trefnu i'r plentyn fyrddio yn yr ysgol neu'n agos ati.
16. Darperir hawl debyg i blant sy'n cael addysg uwchradd, ond gwneir hynny yn yr achos hwn os ydynt yn byw dair milltir neu fwy o'r ysgol a gynhelir, o'r uned cyfeirio disgyblion, o'r ysgol arbennig nas cynhelir neu o'r ysgol annibynnol a enwir mewn datganiad o anghenion addysgol arbennig lle y maent yn ddisgyblion. Nid yw'r ddyletswydd i ddarparu cludiant am ddim yn gymwys pan yw'r awdurdod lleol wedi trefnu i'r plentyn ddod yn ddisgybl cofrestredig mewn sefydliad addas sy'n nes at ei gartref, neu pan yw'r awdurdod wedi trefnu i'r plentyn fyrddio yn yr ysgol neu'n agos ati. Mae'r hawl yn cynnwys cludiant i unrhyw blentyn o oedran ysgol gorfodol sy'n mynychu sefydliad addysg bellach fel myfyriwr llawn-amser os yw'r sefydliad dair milltir neu fwy o'i gartref ac os nad yw'r awdurdod lleol wedi trefnu i'r plentyn fynychu sefydliad addas yn nes at ei gartref. Mae'r hawl hefyd yn cynnwys teithio rhwng y cartref a man perthnasol ac eithrio'r man lle y mae plentyn yn ddisgybl cofrestredig. Mae hyn yn cymryd i ystyriaeth y ffaith bod rhai plant yn mynychu manau gwahanol ar ddyddiau gwahanol, a byddai, er enghraifft, yn cwmpasu lleoliadau profiad gwaith neu fynychu ysgol wahanol neu sefydliad addysg bellach gwahanol ar gyfer cyrsiau penodol. Fodd bynnag, nid yw trefniadau teithio ond i ymwneud â theithio rhwng y cartref a manau perthnasol ar ddechrau ac ar ddiwedd y diwrnod ysgol ac nid ydynt yn ymwneud â theithio yn ystod y dydd. Mae unrhyw drefniadau ar gyfer teithio yn ystod y dydd y tu allan i gwmpas y ddyletswydd sydd ar awdurdod lleol (gweler adran 5).

Section 3 – local authority duty to make transport arrangements

11. Section 3 places a duty on a local authority to make transport arrangements for children of compulsory school age in specified circumstances and subject to specified conditions. The circumstances and conditions are set out in the table after subsection (2). The section makes provision for a system of entitlement to free transport defined by reference to whether children are receiving primary or secondary education and whether they live at or further than set distances from the places at which they receive education or training. This approach to determining entitlement is similar in effect to the system created by the conjoined working of sections 444 and 509 of the Education Act 1996.
12. Subsection (1) provides that the section applies to children of compulsory school age who are ordinarily resident in a local authority's area if the circumstances set out in column 1 of the table apply to the child and the conditions in column 2 are met.
13. Subsection (2) sets out the main duty of the local authority to make suitable transport arrangements to facilitate the attendance of a child to whom the section applies each day at the relevant places where the child receives education or training. A child's attendance is facilitated if arrangements are made for the child to travel from home to the place where they receive education or training and back home again.
14. The table after subsection (2) sets out the circumstances and conditions which lead to an entitlement to free transport arrangements.
15. Children receiving primary education will be entitled to free transport if they live two miles or more from their maintained school, pupil referral unit, or non-maintained special school, unless the authority has arranged for the child to become a registered pupil at a suitable establishment closer to home or has arranged for the child to board at or near the school. Where a child has a statement of special educational needs which names an independent school, then if that school is two miles or more from the child's home, a local authority will have to provide free transport unless it has arranged for the child to become a registered pupil at a suitable establishment closer to home, or has arranged for the child to board at or near the school.
16. A similar entitlement is provided for children receiving secondary education, but in this case if they live three miles or more from their maintained school, pupil referral unit, non-maintained special school or independent school named in a statement of special educational needs. Where the local authority has arranged for the child to become a registered pupil at a suitable establishment closer to home, or has arranged for the child to board at or near the school, the duty to provide free transport does not apply. The entitlement includes transport for any child of compulsory school age who attends a further education institution as a full time student if it is three miles or more from home and the local authority has not arranged for the child to attend a suitable institution closer to home. The entitlement also includes travel between home and a relevant place other than the one at which a child is a registered pupil. This takes account of the fact that some children attend different places on different days, and would for example cover

17. Mae'r un meini prawf oed a phellter yn gymwys i blant sy'n 'derbyn gofal', ond nid yw mynychu'r sefydliad agosaf i'w cartref sy'n sefydliad addas yn amod. Yr awdurdod lleol y mae plentyn yn derbyn gofal ganddo fydd i benderfynu ble y dylai plentyn fynd a gallai'r man hwnnw fod yn ysgol ac eithrio'r ysgol agosaf sy'n addas oherwydd, er enghraifft, bod sicrhau parhad yn addysg y plentyn neu yng nghysylltiad y plentyn â brodyr a chwiorydd a ffrindiau yn flaenoriaeth.
18. Mae is-adran (3) yn gwahardd awdurdod rhag codi tâl am drefniadau cludo y mae'n ofynnol iddo eu gwneud ar gyfer plant o oedran ysgol gorfodol o dan yr adran hon (ac eithrio mewn perthynas â phlant sy'n derbyn gofal ac yn yr achos hwnnw gall adennill costau oddi wrth awdurdod arall o dan adran 18).
19. Mae is-adran (4) yn pennu y caiff trefniadau cludo a wneir o dan yr adran gynnwys darparu cludiant neu dalu'r cyfan, ond nid rhan, o dreuliau teithio plentyn. Ystyr yr is-adran hon yw y gallai awdurdod gyflawni'r ddyletswydd yn is-adran (2) drwy drefnu gyda chontractwr bysiau neu dacsu wasanaeth bysiau, a darparu pàs i'w ddefnyddio ar drafnidiaeth gyhoeddus neu ad-dalu treuliau teithio rhieni neu ddysgwyr.
20. Mae is-adrannau (5) i (8) yn diffinio a yw trefniadau'n 'addas', a yw ysgol neu gyfleuster addysg arall yn gwneud darpariaeth 'addas', ac a oes llwybr 'ar gael'.
21. Mae is-adran (5) yn ei gwneud yn ofynnol i drefniadau cludo fod, o fewn rheswm, yn rhydd o straen, iddynt beidio â chymryd amser afresymol o hir, ac iddynt fod yn ddiogel.
22. Mae is-adran (6) yn diffinio addasrwydd addysg neu hyfforddiant at ddiben yr adran hon drwy gyfeirio at oed plentyn, ei allu a'i ddoniau, ac at unrhyw anawsterau dysgu. Nid oes a wnelo dewis iaith, neu famiaith, na chredo neu argyhoeddiad crefyddol y plentyn neu'r rhiant, ddim ag addasrwydd ysgol at ddiben yr adran hon.
23. Mae is-adran (7) yn pennu bod y pellteroedd yn y tabl i'w mesur ar hyd y llwybr byrraf sydd ar gael. Ymdrinnir ag a oes llwybr ar gael yn is-adran (8) sy'n nodi'r amgylchiadau pan ellir disgwyl i blentyn gerdded i'r ysgol. Os nad yw'r amgylchiadau hyn yn gymwys, yna ni ellir disgwyl i blentyn gerdded i'r ysgol hyd yn oed pan fydd y pellter rhwng ei gartref a'r ysgol yn llai na'r terfyn pellter sy'n gymwys i'w oed fel a nodir yn y tabl. Yr amgylchiadau yw bod natur y ffordd yn ei gwneud yn ddiogel i blentyn gerdded ar ei ben ei hun neu, pan fo oed y plentyn yn gwneud hynny'n ofynnol, gydag oedolyn yn ei hebrwng. Os nad yw'r amgylchiadau hyn yn gymwys, mae is-adrannau (1) a (2) yn darparu hawl i drefniadau teithio am ddim onid yw awdurdod wedi gwneud trefniadau i addysgu'r plentyn mewn ysgol addas amgen yn nes at gartref y plentyn.
24. Caiff Gweinidogion Cymru wneud rheoliadau o dan is-adran (9) yn pennu'r amgylchiadau a'r amodau pan fyddai gan blant o oedran ysgol gorfodol hawl i gludiant am ddim. Caiff rheoliadau ddiwygio'r tabl neu is-adrannau (6), (7) ac (8) neu gofnodion yn y tabl. Er enghraifft, gallai Gweinidogion Cymru newid y meini prawf pellter ac oed sy'n penderfynu cymhwystra a darparu ar gyfer awdurdodau lleol fwy o ddisgresiwn neu lai i weithredu eu polisiau cludiant eu hunain. Byddai unrhyw reoliadau a wneid o dan y ddarpariaeth hon yn cael eu gwneud drwy'r weithdrefn

work experience placements or attendance at a different school or a further education institution for certain courses. However, travel arrangements are only to be concerned with travel between the home and relevant places at the start and finish of the school day and are not concerned about travel within the day. Any arrangements for travel within the day are outside the scope of the duty on a local authority (see section 5).

17. The same age and distance criteria apply to ‘looked after’ children, but there is no qualification that they attend the nearest suitable establishment to their home. It will be for the local authority looking after a child to determine where he or she should go and that might be a school other than the nearest suitable one because for instance of a priority to maintain continuity in their education or contact with siblings and friends.
18. Subsection (3) forbids an authority from charging for transport arrangements that it is required to make for children of compulsory school age under this section (save in relation to looked after children where it can recoup costs from another authority under section 18).
19. Subsection (4) specifies that the transport arrangements made under the section may include the provision of transport or the payment of the whole, but not part, of a child’s transport expenses. This subsection means that an authority could discharge the duty in subsection (2) by arranging a bus service with a bus or taxi contractor, providing passes for public transport or reimbursing parental or learner travel expenses.
20. Subsections (5) to (8) define whether arrangements are ‘suitable’, whether a school or other education facility makes ‘suitable’ provision, and whether a route is ‘available’.
21. Subsection (5) requires transport arrangements to be reasonably stress free, not to take an unreasonable amount of time, and to be safe.
22. Subsection (6) defines the suitability of education or training for the purpose of this section by reference to a child’s age, ability and aptitude, and to any learning difficulties. Neither the child’s or parent’s language preference or mother tongue, nor religious faith or conviction of the child or his or her parent have any bearing on whether a school is suitable for the purpose of this section.
23. Subsection (7) specifies that the distances in the table are to be measured by the shortest available route. Availability of a route is dealt with in subsection (8) which sets out the circumstances when a child can be expected to walk to school. If these circumstances do not apply, then a child cannot be expected to walk to school even though the distance from home to school is less than the distance limit that applies to his / her age set by the table. The circumstances are that the nature of the route is such that it is safe for a child to walk alone, or where the age of the child requires it, accompanied by an adult. If these circumstances do not apply, subsections (1) and (2) provide entitlement to free travel arrangements unless an authority has made arrangements to educate the child at an alternative suitable school closer to home.

penderfyniad cadarnhaol a byddent yn ddarostyngedig i asesiad effaith rheoleiddiol ac i graffu arnynt gan y Cynulliad Cenedlaethol.

Adran 4 – Dyletswydd awdurdod lleol i wneud trefniadau teithio eraill

25. Mae adran 4 yn rhoi dyletswydd ar awdurdod lleol i wneud trefniadau teithio ar gyfer plant o oedran ysgol gorfodol os yw'r awdurdod o'r farn bod angen gwneud hynny er mwyn hwyluso'r ffordd i blentyn fynychu'r man perthnasol lle y mae'r plentyn yn cael addysg neu hyfforddiant.
26. Mae is-adran (3) yn ei gwneud yn ofynnol i drefniadau o dan yr adran hon fod yn ddi-dâl (ac eithrio mewn perthynas â phlant sy'n derbyn gofal ac yn yr achos hwnnw caiff yr awdurdod adennill costau oddi wrth awdurdod arall o dan adran 18). Ni chaniateir gan is-adran (4) dalu rhan o dreuliau teithio dysgwr (dim ond y gost lawn y caniateir ei thalu).
27. Wrth ystyried a yw trefniadau teithio o dan yr adran hon yn addas, mae is-adran (5) yn ei gwneud yn ofynnol i'r awdurdod roi sylw i asesiad o anghenion yr ymgymerir ag ef o dan adran 2(2), y trefniadau cludo y mae'n ddyletswydd arno eu gwneud o dan adran 3, oed y plentyn, unrhyw anabledd neu anhawster dysgu a natur y ffordd. Rhaid i drefniadau, yn rhinwedd is-adran (6), fod yn ddiogel, peidio â chymryd amser afresymol o hir, a rhaid iddynt beidio â pheri lefelau afresymol o straen.
28. Rhaid i awdurdod gael ei fodloni hefyd fod angen y trefniadau. Wrth ystyried hyn, mae is-adran (7) yn ei gwneud yn ofynnol iddo ystyried yr un ffactorau ag a geir yn is-adran (5) ond mae'n caniatáu iddo hefyd ystyried a yw plentyn yn mynychu'r sefydliad addysgol sydd agosaf at ei gartref ac sy'n sefydliad addas. Mae hyn yn gwneud y berthynas rhwng adrannau 3 a 4 yn glir. O dan is-adrannau (7) ac (8) nid oes angen i awdurdod lleol ystyried bod angen trefniadau teithio os nad yw plentyn yn mynychu'r ysgol agosaf sy'n addas (a bod trefniadau wedi eu gwneud i'r plentyn fynychu ysgol sy'n nes at ei gartref ac sy'n addas). Mae is-adran (8)(a) yn ei gwneud yn glir fodd bynnag nad yw hyn yn gymwys mewn perthynas â phlant sy'n derbyn gofal. Ni all y cwestiwn a yw plentyn sy'n derbyn gofal yn mynychu'r ysgol agosaf sy'n addas fod yn ffactor i'r awdurdod lleol ei ystyried wrth benderfynu a yw trefniadau teithio'n angenrheidiol.
29. Efallai y bydd awdurdod o'r farn bod angen gwneud trefniadau o dan yr adran hon ar gyfer plentyn nad oes ganddo hawl i gludiant am ddim o dan adran 3 oherwydd amgylchiadau arbennig y plentyn hwnnw. Neu efallai y bydd awdurdod o'r farn bod angen gwneud trefniadau o dan yr adran hon yn ychwanegol at ddarparu cludiant fel sy'n ofynnol o dan adran 3; er enghraifft, bod angen trefnu hebryngwr neu offer ar gyfer plentyn anabl. Nid oes rhaid i awdurdod ddarparu cludiant. Gallai, er enghraifft, ddarparu pàs bws ar gyfer dysgwr neu drefnu i blant gerdded gyda hebryngwr i'r man perthnasol. Bydd yr adran hon hefyd yn darparu sail i awdurdodau lleol gefnogi teithio gan blant a chanddynt unrhyw anghenion penodol p'un a yw'r anghenion yn deillio o anhawster dysgu, o anabledd neu o unrhyw ffactor arall sy'n gwneud trefniadau teithio penodol yn angenrheidiol er mwyn hwyluso'r ffordd i blentyn fynychu man perthnasol.

24. The Welsh Ministers may make regulations under subsection (9) prescribing the circumstances and conditions in which children of compulsory school age would be entitled to free transport. Regulations may amend the table or subsections (6), (7) and (8) or entries in the table. For example, the Welsh Ministers could change the distance and age criteria that determine eligibility, provide local authorities with more or less discretion to operate their own transport policies. Any regulations made under this provision would be made using the affirmative resolution procedure and would be subject to a regulatory impact assessment and scrutiny by the National Assembly.

Section 4 – Local authority duty to make other travel arrangements

25. Section 4 places a duty on a local authority to make travel arrangements for children of compulsory school age if the authority judges that that is necessary in order to facilitate a child's attendance at the relevant place where the child receives education or training.
26. Subsection (3) requires arrangements under this section to be free of charge (save in relation to looked after children where it can recoup costs from another authority under section 18). The payment of part of a learner's travel expenses is not permitted by subsection (4) (only payment of the total cost).
27. In considering whether travel arrangements under this section are suitable, subsection (5) requires the authority to have regard to the needs assessment undertaken under section 2(2), the transport arrangements it is duty bound to make by section 3, the age of the child, any disability or learning difficulty and the nature of the route. Arrangements must, by virtue of subsection (6), be safe, not take an unreasonable amount of time, and must not cause unreasonable levels of stress.
28. An authority must also be satisfied that the arrangements are necessary. In considering this, subsection (7) requires them to consider the same factors as are set out in subsection (5) but also allows them to have regard to whether a child is attending the nearest suitable educational establishment to his or her home. This makes the relationship between sections 3 and 4 clear. Under subsections (7) and (8) a local authority need not consider that travel arrangements are necessary if a child is not attending the nearest suitable school (and arrangements have been made for the child to attend a nearer suitable school). Subsection (8) (a) makes it clear however that this does not apply in relation to looked after children. Whether a looked after child attends the nearest suitable school cannot be a factor that the local authority consider in deciding whether travel arrangements are necessary.
29. An authority may consider it necessary to make arrangements under this section for a child who is not entitled to free transport under section 3 because of that child's individual circumstances. Or an authority may consider it necessary to make arrangements under this section in addition to the provision of transport required under section 3, for example, to arrange for an escort or for equipment for a disabled child. An authority does not have to provide transport. It could, for example, provide a learner with a bus pass or arrange for children to be escorted while walking to the relevant place. This

Adran 5 – Terfynau dyletswydd teithio gan ddysgwyr

30. Mae'r adran hon yn gosod terfynau ar ddyletswyddau a roddir ar awdurdodau lleol gan adrannau 2, 3 a 4 fel nad ydynt yn ymestyn i gynnwys teithio yn ystod y dydd neu deithio at ddibenion ac eithrio mynychu man perthnasol i gael addysg a hyfforddiant.
31. Nid yw'n ofynnol i awdurdod lleol roi sylw i anghenion teithio a allai godi yn ystod y dydd. Mae'r dyletswyddau a osodir gan y Mesur i wneud trefniadau teithio yn ymwneud â theithio o'r cartref i'r ysgol (neu fan perthnasol arall) ac yn ôl adref.
32. Mae'r dyletswyddau i asesu a gwneud trefniadau teithio'n gymwys i deithio i'r manau a restrir yn adran 1(4) lle y mae dysgwyr yn cael addysg a hyfforddiant ac oddi yno. Mae tripliau ysgol ac ymweliadau preswyl y tu allan i gwmpas y dyletswyddau.

Adran 6 – Pŵer awdurdodau lleol i wneud trefniadau teithio i ddysgwyr

33. Mae'r adran hon yn rhoi i awdurdod lleol bŵer yn ôl ei ddisgresiwn i wneud unrhyw drefniant y mae'n gweld yn dda ei wneud i hwyluso'r ffordd i ddysgwyr deithio i fan lle y maent yn cael addysg neu hyfforddiant ac oddi yno. Mae'r pŵer yn gymwys mewn perthynas â dysgwr sy'n byw neu'n astudio yn ardal yr awdurdod. Gallai hyn gynnwys cludiant i ysgolion ac eithrio'r ysgol agosaf sy'n addas - er enghraifft gallai gynnwys cludiant i ysgolion sydd, neu sydd heb fod, yn grefyddol eu natur neu i ysgolion cyfrwng Cymraeg neu gyfrwng Saesneg mewn achosion pan nad yw'r ysgol agosaf sy'n addas wedi bodloni dymuniadau rhieni o ran y materion hyn. Gallai trefniant gynnwys bod awdurdod lleol yn talu'r cyfan neu ran o dreuliau teithio dysgwr.
34. Yn rhinwedd is-adrannau (3) a (4) gellir codi tâl am y trefniadau hyn. Mewn perthynas â dysgwyr nad ydynt o oedran ysgol gorfodol, nid oes cyfyngiad ar godi tâl. Mewn perthynas â phlant o oedran ysgol gorfodol, os codir tâl rhaid gwneud hynny'n unol ag adrannau 455 a 456 o Ddeddf Addysg 1996 (fel y'i diwygir gan adran 22).
35. Mae'r modd i godi tâl neu i dalu'r cyfan neu ran o dreuliau teithio dysgwr yn rhoi hyblygrwydd i awdurdodau lleol i roi ar waith drefniadau teithio sy'n mynd y tu hwnt i'r gofynion statudol a osodir gan adrannau 3 a 4.

Adran 7 – Trefniadau teithio ar gyfer dysgwyr mewn addysg neu hyfforddiant ôl-16

36. Bydd Gweinidogion Cymru yn gallu gwneud rheoliadau o dan yr adran hon ynghylch trefniadau teithio ar gyfer dysgwyr ôl-16 sy'n byw yng Nghymru ac sy'n mynychu cyrsiau yng Nghymru neu yn rhywle arall lle y cyllidir yr addysg neu'r hyfforddiant gan Weinidogion Cymru.
37. Gallai'r rheoliadau wneud darpariaeth debyg i'r ddarpariaeth a wneir yn y Mesur mewn perthynas â phlant o oedran ysgol gorfodol. Gellid gwneud darpariaeth a fyddai'n ei gwneud yn ofynnol, neu'n caniatáu, i Weinidogion Cymru, i awdurdodau lleol neu i sefydliadau addysg bellach wneud trefniadau teithio, ac a fyddai'n pennu'r math o faterion i'w hystyried wrth wneud trefniadau. Gallai'r rheoliadau hefyd wneud darpariaeth ynghylch codi tâl, gallent fynnu bod cydweithredu â'r person sy'n gysylltiedig â'r trefniadau'n digwydd, a gallent wneud darpariaeth ynghylch gorfodi'r

section will also provide the basis for local authorities to support travel for children if they have any particular needs, whether arising from a learning difficulty, a disability or any other factor which makes particular travel arrangements necessary to facilitate the child's attendance.

Section 5 – Limits of learner travel duties

30. This section places limits on the duties imposed on local authorities by sections 2, 3 and 4 so that they do not extend to travel during the day or to travel for purposes other than for attendance at a relevant place for education and training.
31. A local authority is not required to take account of travel needs that might arise during the day. The duties imposed by the Measure to make travel arrangements relate to travel from home to school (or other relevant place) and back home again.
32. The duties to assess and make arrangements for travel apply to travel to/from the places listed in section 1(4) where learners receive education and training. School trips and residential visits are outside the scope of the duties.

Section 6 – Power of local authorities to make learner travel arrangements

33. This section gives a local authority a discretionary power to make any arrangement they think fit to facilitate the travel of learners to and from a place where they receive education or training. The power applies in relation to a learner living or studying in the authority's area. This could include transport to schools other than the nearest suitable school – for instance it could include transport to schools with or without a religious character or to Welsh or English medium schools in cases where the nearest suitable school has not met parental preferences in these respects. An arrangement could include a local authority paying all or part of a learner's travel expenses.
34. A charge can be made for these arrangements by virtue of subsections (3) and (4). In relation to learners who are not of compulsory school age, there is no restriction on charging. In relation to children of compulsory school age, charging must be in accordance with sections 455 and 456 of the Education Act 1996 (as amended by section 22).
35. The means to charge or pay all or part of a learner's travel expenses provides flexibility for local authorities to put in place travel arrangements that exceed the statutory requirements set by section 3 and 4.

Section 7 – Travel arrangements for learners in post -16 education or training

36. Welsh Ministers will be able to make regulations under this section about travel arrangements for post-16 learners who live in Wales and are attending courses in Wales or elsewhere where the education or training is funded by the Welsh Ministers.

cod ymddygiad wrth deithio a wneir o dan adran 12 ac sy'n nodi safonau ymddygiad i'w harddel wrth deithio.

Adran 8 – Trefniadau teithio i fannau lle y darperir addysg feithrin ac oddi yno

38. Pŵer gwneud rheoliadau yw adran 8 sy'n caniatáu i Weinidogion Cymru wneud darpariaeth ynghylch trefniadau teithio i blant oed meithrin. O dan y pŵer hwn gallai Gweinidogion Cymru ei gwneud yn ofynnol i awdurdod lleol wneud trefniadau teithio i blant o dan oedran ysgol gorfodol sydd mewn addysg feithrin. Mae is-adran (2) yn disgrifio cwmpas y pwerau gwneud rheoliadau. Gallai'r rheoliadau wneud darpariaeth debyg i'r ddarpariaeth a wneir yn y Mesur mewn perthynas â phlant o oedran ysgol gorfodol a gallent ei gwneud yn ofynnol i unrhyw berson ddarparu gwybodaeth a chymorth y gallai fod yn rhesymol bod ar awdurdod lleol eu hangen.

Adran 9 – Trefniadau teithio i ddysgwyr a'r rheini'n drefniadau nad ydynt i ffafrio mathau penodol o addysg neu hyfforddiant

39. Mae adran 9 yn gwahardd y trefniadau teithio a wneir o dan adrannau 3, 4 a 6 rhag camwahaniaethu rhwng amryw gategoriâu o ddysgwyr. Gwelir y categorïau yn y tabl. Rhaid peidio â thrin plant o oedran ysgol gorfodol sydd mewn sefydliadau nad ydynt yn ysgolion a gynhelir yn llai ffafriol na phlant yr un oed mewn ysgolion a gynhelir. Rhaid peidio â thrin dysgwyr eraill sy'n cael addysg lawnamser neu hyfforddiant llawnamser mewn sefydliadau nad ydynt yn ysgolion a gynhelir yn llai ffafriol na dysgwyr yr un oed mewn ysgolion a gynhelir. Yn yr un modd ni ddylid camwahaniaethu rhwng y rhai sydd yr un oed a chanddynt anawsterau dysgu neu anabledd neu sy'n derbyn gofal gan awdurdod lleol ac sy'n mynychu sefydliadau ac eithrio ysgolion a gynhelir, a'r rhai sy'n mynychu ysgolion a gynhelir. Mae'n diogelu'r egwyddor bod dysgwyr sy'n elwa o drefniadau teithio yn cael eu trin yn deg.

Adran 10 – Hybu mynediad i addysg a hyfforddiant drwy gyfrwng y Gymraeg

40. Mae'r adran hon yn rhoi dyletswydd ar awdurdodau lleol ac ar Weinidogion Cymru, pan fyddant yn arfer eu swyddogaethau o dan y Mesur hwn, i hybu mynediad i addysg a hyfforddiant drwy gyfrwng y Gymraeg.

Adran 11 – Dulliau teithio cynaliadwy

41. Mae adran 11 yn rhoi dyletswydd ar awdurdod lleol ac ar Weinidogion Cymru i hybu dulliau teithio cynaliadwy pan fyddant yn arfer eu swyddogaethau o dan y Mesur. Golyga hyn y dylai awdurdod lleol ystyried cynaliadwyedd pan fydd yn asesu anghenion teithio dysgwyr o dan adran 2(2). Rhaid ystyried a hybu cynaliadwyedd hefyd pan wneir trefniadau teithio gan awdurdod lleol neu gan Weinidogion Cymru. Er enghraifft, gallai hyn olygu annog dysgwyr i deithio ar fws yn hytrach nag mewn car.
42. Mae is-adran (2) yn diffinio 'dulliau teithio cynaliadwy' fel dulliau y mae'r awdurdod neu Weinidogion Cymru o'r farn y gallant wella llesiant corfforol y rhai sy'n eu defnyddio a llesiant/neu lesiant amgylchedd ardal gyfan yr awdurdod neu ran ohoni, neu Gymru gyfan neu ran ohoni (yn achos Gweinidogion Cymru).

37. The regulations could make provision similar to that made in the Measure in relation to children of compulsory school age. Provision could be made requiring or allowing the Welsh Ministers, local authorities or FE institutions to make travel arrangements and specifying the kind of matters to consider when making them. The regulations could also make provision about charging, could require cooperation between the persons involved in the arrangements, and could make provision about enforcing the travel behaviour code made under section 12 and which sets out standards of behaviour while travelling.

Section 8 – Travel arrangements to and from nursery education

38. Section 8 is a regulation making power allowing the Welsh Ministers to make provision about the travel arrangements for nursery age children. Under this power a local authority could be required by Welsh Ministers to make travel arrangements for children under compulsory school age who are in nursery education. Subsection (2) describes the scope of the regulation making powers. The regulations could make provision similar to that made in the Measure in relation to children of compulsory school age and could require any person to provide information and assistance that a local authority might reasonably require.

Section 9 – Learner travel arrangements not to favour certain types of education or training

